**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo-gynadledda ddydd Iau, 9 Medi 2021**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Elizabeth Evans (Cadeirydd), Gareth Davies, Peter Davies MBE, Keith Evans a Rowland Rees-Evans

Aelod Annibynnol: Yr Athro Ian Roffe YH

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet) ynghyd â'r Cynghorydd Lloyd Edwards

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro**,** Mr Russell Hughes-Pickering – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, Mr Arwyn Davies – Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Amanda Roberts, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Miss Sian Howys, Rheolwr Corfforaethol – Porth Cynnal, Mrs Meinir Ebbsworth – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaeth Ysgolion, Mr Rob Starr - Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Ms Hannah Rees - Swyddog Llywodraethu, Mrs Dana Jones - Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

Archwilio Cymru - Ms Non Jenkins

(9.30am – 12:50pm)

1 **Ymddiheuriadau:**
Roedd y Cynghorydd Matthew Woolfall Jones ynghyd â Mr Jason Blewitt, Eleanor Ansell a Clare James o Archwilio Cymru wedi ymddiheuro am na allent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Materion Personol:**
Croesawodd y Pwyllgor y Cynghorydd Lloyd Edwards yn ôl i'r Cyngor yn dilyn cyfnod o salwch.

Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r Cyn-gynghorydd Will Edwards ar ei farwolaeth.

3 **Datgan Buddiant Personol a Buddiant sy'n Rhagfarnu**
Dim

4 **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**
Adroddwyd bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei rôl o roi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a'r rheolwyr ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Ers mis Mawrth 2020, pan gyrhaeddodd pandemig Covid-19 Gymru, mae ymateb y Cyngor i'r achosion o Covid-19 wedi cael blaenoriaeth. Mae Risg RO18 yn amlinellu manylion y risg a'r camau lliniaru sy'n angenrheidiol i leihau lledaeniad y clefyd yng Ngheredigion.

Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu ac yn cynnwys sylwebaeth wedi'i diweddaru. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r newidiadau a ganlyn i'r Gofrestr ers y diweddariad diwethaf:

- R009 Rheoli Gwybodaeth – fe'i ehangwyd i gynnwys Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol seiberddiogelwch ymhlith y staff swyddfa sy'n gweithio gartref.

- R018 Covid-19 – mae sgôr y risg wedi lleihau o 25 i 20 i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn dilyn llwyddiant y rhaglen frechu. Mae'r Cyngor yn parhau i ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau yn fewnol ac yn allanol ynghylch y trefniadau ymateb ac adfer.

Nid yw sgoriau risg y risgiau sy'n weddill wedi newid ers yr adroddwyd arnynt ddiwethaf, ond mae'r camau lliniaru wedi'u hadolygu a'r sylwebaeth wedi'i diweddaru.

CYTUNWYD nodi'r adroddiad yn amodol ar y canlynol:
(i) yr angen i fynd i'r afael â'r risg sy'n gysylltiedig â phrinder gyrwyr cerbydau HGV a'i effaith ar wasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol. Dywedodd y Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil bod y mater hwn wedi'i amlygu ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad nesaf o'r gofrestr. Nodwyd hefyd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried prinder gyrwyr yn y gwasanaeth casglu sbwriel a'i effaith ar y gwasanaeth yn ddiweddar.
(ii) yr angen i fynd i'r afael unwaith eto â'r risg uchel sy'n gysylltiedig ag archwiliadau diogelwch bwyd; byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r swyddogion perthnasol;
(iii) yr angen i ystyried y risg sy'n gysylltiedig â gwywiad coed ynn yn enwedig yn sgil y posibilrwydd o dywydd garw yn ystod y gaeaf. Byddai hyn hefyd yn cael ei gyfleu i'r swyddogion perthnasol a gallai gael ei ymgorffori yn y rhaglen waith i fynd i'r afael â gwywiad coed ynn ar lwybrau troed a ffyrdd y Cyngor;
(iv) yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â Newid Hinsawdd ac Erydu/Gorlifo Arfordirol yn sgil y posibilrwydd o dywydd garw dros y gaeaf. Roedd hwn yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â phryderon trigolion ynghylch y risgiau hyn a byddai'r sylwadau hyn hefyd yn cael eu cyfleu i'r swyddogion perthnasol;
(v) nodi bod y gofrestr risg yn offeryn/matrics rheoli ardderchog a oedd yn dyst o'r gwaith a wnaed rhwng y pwyllgor a'r swyddogion i fynd i'r afael â'r meysydd risg.

5 **Diweddariad am Raglen Waith Archwilio Cymru**
Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru a'r cynnydd a wneir mewn ymateb i gynigion neu argymhellion blaenorol.

Mae dwy elfen i'r adroddiad:
1) rhoi gwybod am y cynnydd hyd yma ar adroddiadau blaenorol Archwilio Cymru, ac
2) adrodd ar y gwaith cyfredol gydag Archwilio Cymru.

**1) Y diweddaraf am y cynnydd**

- Adroddiadau lleol a dderbyniwyd:
- Adroddiadau cenedlaethol a dderbyniwyd:
  - *Tlodi yng Nghymru*
  - *Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth Dinasyddion a Chymunedau*
  - *Mentrau Cymdeithasol*
- Tystysgrifau a dderbyniwyd: dim
- Diweddariad ar Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr:
  - Taenlen Excel o Ymatebion Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr
  - *'Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru* (30/7/2020) (ymateb wedi'i ddiweddaru) Mehefin 2021
  - *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor* (ymateb wedi'i ddiweddaru Awst 2021)
- Y diweddaraf am Brotocol y Cyngor

**2) Gwaith Cyfredol**

- Llythyr Archwilio Cymru i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru (Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - Cyngor Sir Ceredigion)
- Briff Prosiect *Springing Forward* (2021-2022)

CYTUNWYD nodi'r adroddiadau a gyflwynwyd yn amodol ar:
(i) drafodaeth bellach gyda'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a Swyddogion yn dilyn y cyfarfod ar gynnwys a maint agenda cyfarfodydd y Pwyllgor; ac
(ii) ystyried yr awgrym y gellid trefnu cyfarfod yn flynyddol i ystyried materion llywodraethu yn unig. Roedd hyn er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn y cyfrifoldebau fel a adlewyrchir yn enw'r Pwyllgor - Pwyllgor Archwilio i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

6 **Gwirio Sicrwydd 2021 - Arolygiaeth Gofal Cymru**

Derbyniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol lythyr oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr ail o Orffennaf, 2021. Darparwyd adroddiad manwl ar gynnwys y llythyr.

CYTUNWYD nodi cynnwys y llythyr a dderbyniwyd ac i longyfarch y gwasanaeth ar adroddiad rhagorol.

7 **Llythyr Estyn - tymor yr Haf 2021**

Adroddwyd bod Estyn, ym mis Tachwedd 2020, wedi cynnal ymweliad rhithiol gyda swyddogion y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn arfarnu ein gwaith wrth gefnogi ysgolion yn ystod pandemig Covid. Wedi hynny, amlinellodd Estyn ei ganfyddiadau mewn llythyr a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, i'r Cabinet ac i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu. Lluniodd Estyn hefyd adroddiad cenedlaethol cyfansawdd ag iddo argymhellion penodol.

Ym mis Mai 2021 cynhaliodd Estyn ail ymweliad gyda phob Awdurdod Lleol i ffocysu ar ein gwaith yn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol. Anfonodd Estyn lythyr yn amlinellu ein gwaith yn y meysydd hynny at y Prif Weithredwr ar 16 Gorffennaf 2021.

CYTUNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Roedd yr Aelodau am longyfarch y gwasanaeth ar yr adroddiad rhagorol.

8 **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/21 – 30/6/21**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol ar Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol, Chwarter 1 (1/4/21 – 30/6/21). Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol er mwyn darparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD nodi'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.

Roedd yr Aelodau am longyfarch y gwasanaeth ar y gwaith y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

9 **Adroddiad Archwilio Mewnol –Ystadau**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol ar Adroddiad Archwilio Mewnol - Ystadau. Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin ynglŷn â'r diffyg cyfathrebu rhwng Archwilio Cymru a Gwasanaeth Ystadau'r Cyngor, cytunwyd:

12 (ii) y byddai'r gwasanaeth archwilio mewnol yn gofyn am esboniad ynglŷn â'r broblem gyfathrebu a gododd yn y gwasanaeth ystadau, a arweiniodd at yr oedi wrth ddarparu gwybodaeth i Archwilio Cymru.

Adroddodd y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol ei bod wedi trefnu cyfarfod â'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter ar 29/7/21 i drafod y mater hwn.

Yn y cyfarfod, cadarnhaodd y Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter fod y gwaith angenrheidiol wedi'i wneud yn ôl yr angen wrth baratoi ar gyfer y cyfrifon penodedig; fodd bynnag, roedd gwiriadau mewnol y gwasanaeth Ystadau ei hun wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Roedd hyn, ynghyd â phwysau gwaith eraill, wedi achosi oedi wrth gyfathrebu ag Archwilio Cymru. Wrth edrych yn ôl, mae'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter yn cydnabod y dylai Archwilio Cymru fod wedi cael gwybod am hyn ar y pryd ac mae'n cymryd cyfrifoldeb llawn am yr amryfusedd.

I sicrhau bod y cyfathrebu'n foddhaol o hyn ymlaen, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio a'r Rheolwr Corfforaethol - Twf a Menter yn cyfarfod bob pythefnos â'r Rheolwr Archwilio a'r Arweinydd Archwilio o dîm Archwilio Ariannol lleol Archwilio Cymru. Roedd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio yn cytuno bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda hyd yma. Nid oes unrhyw anawsterau o bwys wedi codi ers hynny ac mae adroddiad drafft ar y prisiadau presennol wedi'i rannu eisoes â Swyddogion Archwilio Cymru er mwyn cael eu hadborth.

Byddai'r fforwm hwn yn parhau i gyfarfod ar y cyd naill ai bob pythefnos neu bob mis, yn dibynnu ar Archwilio Cymru, i sicrhau yr ymdrinnir ar unwaith ag unrhyw faterion sy'n codi ac i osgoi rhagor o oedi wrth gyfathrebu.

I gloi, roedd y Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru wedi cadarnhau'r trefniadau uchod drwy e-bost ar 30/7/21 a chadarnhaodd fod y cyfathrebu yn well ar hyn o bryd.

Darllenodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru ddatganiad hefyd a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru yn cadarnhau ei fod yn fodlon â'r sefyllfa bresennol.

Roedd yr Aelodau yn falch o dderbyn sicrwydd bod y sefyllfa mewn perthynas â chyfathrebu wedi gwella yn awr, a CHYTUNWYD nodi'r sefyllfa bresennol.

10 **Adroddiad ar fynd i'r afael a materion yn ymwneud â phrisio asedau sy'n codi o Adroddiad Archwilio Cymru 2019/20 a mewnbwn Archwilio Cymru wedi hynny**

Yn dilyn adroddiad a thrafodaeth yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, 3ydd Mehefin 2021, ar berfformiad yn ymwneud â phrisio asedau'r Cyngor, diweddariad yw hwn ar y camau a gymerwyd ers hynny i sicrhau y cyflawnwyd gwelliannau cynaliadwy hirdymor a thymor byr yn y system werthuso wrth symud ymlaen.

Camau a gymerwyd ers Mehefin

Gan fod cyfathrebu gwan wedi'i nodi'n fater allweddol, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd (bob pythefnos) rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol a swyddogion Archwilio Cymru wrth i'r gwaith paratoi gael ei wneud i adolygu'r prisiadau ar gyfer 2020/21 ym mis Medi.

Rhannwyd yr adroddiad prisiadau drafft gyda swyddog Archwilio Cymru ac awgrymwyd gwelliannau bach. Roedd yr adroddiad wedi'i ddiwygio a'i gwblhau yn awr.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion Archwilio Cymru a swyddogion y gwasanaeth Ystadau ar 6ed Medi i amlinellu'r broses adolygu.

Bu aelodau staff yr adran Ystadau wrth law yn y pythefnos yn dilyn y 6ed i ymateb i unrhyw gwestiynau a godwyd.

Gwelliannau i'r dyfodol

Byddai'r gyfres o gyfarfodydd a drefnwyd rhwng y Swyddog Arweiniol Corfforaethol/Rheolwr Corfforaethol ac Archwilio Cymru yn parhau wrth i'r gwaith prisio ar gyfer 2021/22 fynd yn ei flaen fel y gellid dynodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw ar unwaith.

Byddai recriwtio i lenwi swyddi yn y gwasanaeth yn digwydd yn y 4-6 wythnos i ddod, a byddai hyn hefyd yn cefnogi'r gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth.

CYTUNWYD nodi'r sefyllfa gyfredol.

11 **Adroddiad Blynyddol 2020-21 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14eg Medi 2017 cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n darparu asesiad ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i roi sicrwydd bod materion wedi cael sylw a symud ymlaen.

Defnyddir Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i:

a) Dynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn;

b) Dangos sut mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth;

c) Amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a

d) Darparu hunanasesiad a sicrwydd.

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor ar gyfer 2020/21. Adroddwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor gan Gadeirydd 2020/21 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac y byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor wedi hynny.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Cadeirydd, 2020-21 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor, yn amodol ar gynnwys cyfeiriad bod y Pwyllgor wedi bod yn paratoi yn 2020/21 i fynd i'r afael â chyfrifoldebau newydd y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethu yn ychwanegol at rôl ragweithiol wrth wella'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor lle y bo'n briodol.

12 **Adroddiad ynghylch Cynnydd o ran Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a Chynllun Gweithredu'r Flwyddyn Gyfredol**

Rhoddwyd cefndir manwl i'r Aelodau ar yr Adroddiad, gan gynnwys diweddariad ynghylch cynnydd o ran Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 a'r cynnydd ar y camau gweithredu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 ar gyfer 2021-22.

Cadarnhawyd bod adolygiad o Fframwaith Llywodraethu Blynyddol 2021/2022 ar waith ac y byddai gweithdy gydag Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r swyddogion priodol yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd/Rhagfyr fel y gellid paratoi datganiad drafft i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2022.

Nodwyd y byddai'r Cynghorydd Keith Evans yn ysgrifennu at y Swyddog Monitro yn nodi'r rhesymau dros ei gais i'r Pwyllgor/Cyngor edrych ar ddatganiadau buddiant Prif Swyddogion fel a drafodwyd yn y cyfarfod.
CYTUNWYD derbyn yr adroddiad cynnydd o ran y camau gweithredu ar gyfer 2021/22 fel y maent wedi'u nodi yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21.

13 **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cyflwynwyd y Flaenraglen Waith i'r Pwyllgor. Cadarnhawyd bod yr Adroddiad Gwariant Cyfalaf wedi'i ddileu o Flaenraglen Waith y Pwyllgor, fel y cytunwyd gan y Cadeirydd ac y byddai Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru hefyd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.

CYTUNWYD nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd.

14 **Cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 03 Mehefin 2021**

CYTUNWYD cadarnhau fel cofnod cywir Gofnodion y Cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 03 Mehefin 2021.

**Materion sy'n codi**
Adroddwyd nad oedd y Gwasanaethau i Gwsmeriaid wedi gofyn am ymateb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau i Gwsmeriaid ynghylch y £150,000 a wariwyd ar ffonau clyfar. Byddid yn cael gafael ar y wybodaeth hon a'i dosbarthu i'r Aelodau dros e-bost erbyn diwedd Medi; byddid yn adrodd yn ôl arno yn y cyfarfod nesaf yn unol â hynny.

15 **GWAHARDD Y CYHOEDD A'R WASG**

**Gwasanaeth y Crwner - Ffioedd Cyfarwyddwyr Angladdau - ni chyhoeddir yr atodiadau sy'n gysylltiedig ag eitem 15 gan fod gwybodaeth esempt ynddynt fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os, yn dilyn cymhwyso Prawf Lles y Cyhoedd, y bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, gwaherddir y cyhoedd a'r wasg rhag dod i'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) y Ddeddf.**

**I BENDERFYNU ARNO**
**CYTUNWYD gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg**
Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a'r atodiadau a ddarparwyd a CHYTUNWYD y byddai adroddiad pellach ar y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

16 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd sy'n gofyn am sylw brys y Pwyllgor**

Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi a nifer o swyddogion wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Rhwydwaith i Gadeiryddion Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ddydd Llun, 6ed Medi 2021 a'i fod yn gyfarfod buddiol iawn. Dywedodd ei fod yn gadarnhaol bod nifer o Gynghorau hefyd wedi dangos eu bod yn bwriadu cael 9 Aelod ar eu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er bod rhai wedi dweud bod ganddynt hyd at 19 Aelod ar eu pwyllgor ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd nifer wedi adrodd y byddent yn lleihau eu haelodaeth o fis Mai 2022 oherwydd y ddeddfwriaeth newydd. Roedd hefyd yn dda gallu nodi bod Ceredigion ar y blaen i eraill yn y broses o recriwtio aelodau lleyg.

**Cadarnhawyd yn y Cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd 25 Tachwedd 2021**

**Cadeirydd:** .....

**Dyddiad:** .....